Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

Asesiad Llesiant Drafft

Crynodeb

Mawrth 2017

Cynnwys

Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2017 3

Beth yw Asesiad Lles? 3

Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2017 5

Beth mae lles yn ei olygu i Gaerdydd? 5

Gweledigaeth 5

Saith Canlyniad a Rennir 6

Gweithio'n gynaliadwy 8

Datblygu Asesiad Lles Lleol Caerdydd 2017 11

Sail dystiolaeth 11

Strwythur 12

Adolygiadau ac asesiadau statudol 14

Bylchau o ran yr hyn rydyn ni'n ei wybod 20

Beth mae'r Asesiad Lles yn ei ddweud wrthym? 21

Lles economaidd 22

Lles cymdeithasol 24

Lles amgylcheddol 26

Lles diwylliannol 28

Ymgysylltu ac ymgynghori 30

Camau Nesaf – Datblygu Cynllun Lles Lleol Caerdydd 34

Rydym eisiau clywed eich barn chi 35

Asesiad Llesiant Lleol Caerdydd 2017

Beth yw Asesiad Llesiant?

Yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] ('y Ddeddf'), rhoddwyd y trefniadau partneriaeth cryf a ddatblygwyd yng Nghaerdydd dros y ddegawd ddiwethaf ar sail statudol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol i gyrff allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghaerdydd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y ddinas i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, trwy ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[2] (BGC).

O dan y Ddeddf, rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol erbyn mis Mai 2018 sy'n nodi amcanion a rennir ar gyfer gwella llesiant y ddinas. I roi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer yr amcanion hyn, mae'n ofynnol i'r BGC gyhoeddi Asesiad Llesiant lleol sy'n dwyn ynghyd ddarlun cynhwysfawr o lesiant y ddinas a'i chymunedau.

Mae'r Ddeddf yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff sector cyhoeddus ledled Cymru i gymryd camau i gyflawni saith nod llesiant Cymru:

- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd eang[3]

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys BGC Caerdydd, i 'weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'. Yn gryno, mae hyn yn golygu bod rhaid i bartneriaid weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Nodwyd pum ffordd o weithio o dan y Ddeddf i ddiffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

---

[1] http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir/future-generations-bill
[2] Gallwch ddarllen mwy am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn www.partneriaethcaerdydd.co.uk
[3] Darllenwch fwy am y saith nod llesiant yma

Tymor hir - *Cydbwyso anghenion tymor byr tra'n diogelu ein gallu hefyd i gwrdd ag anghenion tymor hir ein cymunedau.*
Atal - *Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu i'n helpu i gyflawni ein hamcanion.*
Integreiddio - *Ystyried sut y gall ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, neu ar amcanion unigol partneriaid.*
Cydweithio – *Gweithredu mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni ein hamcanion llesiant.*
Cynnwys - *Cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd.*

Asesiad Llesiant Caerdydd 2017

Beth mae llesiant yn ei olygu i Gaerdydd?

Yn 2010, datblygodd sefydliadau mawr yn y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghaerdydd ddull partneriaeth newydd ar gyfer ymdrin â'r materion pwysicaf sy'n effeithio ar y brifddinas. Roeddent yn cydnabod na allai'r materion tymor hir a hirsefydlog sy'n effeithio ar y ddinas gael eu datrys gan sefydliadau yn gweithredu ar eu pennau eu hunain.

Bu i bartneriaid ymgymryd ag Asesiad o Angen cynhwysfawr ac ymgynghoriad cyhoeddus mawr, gan fynd i ymweld â chymunedau yng Nghaerdydd er mwyn cynnal digwyddiadau cymdogaeth.

Yn hyn o beth, cytunwyd ar weledigaeth ynghylch sut dylai Caerdydd edrych i'r genhedlaeth nesaf ar ffurf saith o ganlyniadau a rennir. Nodwyd hyn yn Strategaeth 10 mlynedd 'Beth sy'n Bwysig' Caerdydd.

Wrth baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adfywiodd partneriaeth Caerdydd asesiad anghenion y ddinas yn 2015, gan ailedrych ar y materion a wynebir gan gymunedau'r ddinas a'r canlyniadau â blaenoriaeth a gytunwyd gan ddinasyddion a phartneriaid. Cafodd y rhain eu cadarnhau gan Bartneriaeth Caerdydd yn 2015 a chawsant eu dwyn ymlaen gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu'r strwythur ar gyfer yr Asesiad Llesiant. Gallwch ddarllen mwy am beth mae pobl Caerdydd yn ei ystyried yn bwysig i'w lles yn adran 'Lle Gwych i Fyw, Gweithio a Chwarae' yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw.

Gweledigaeth

'I ddod y ddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop'

Bydd y dinasoedd mwyaf llwyddiannus yn yr 21ain ganrif yn rhai fydd ag economi cryf a chynhwysol, yn cynnig ansawdd bywyd da i bawb, wedi'u cynllunio mewn modd cynaliadwy ac sy'n dangos gwytnwch yn wyneb heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen mabwysiadu dull eang sy'n cynnwys pob agwedd ar fywyd y ddinas. Diffinnir y rhain gan saith o ddeilliannau sy'n berthnasol i'r holl ddinas, ac mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi ymrwymo i'r rhain.

Saith Canlyniad a Rennir

Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae	Mae'n rhaid i'r ddinas weithio dros ein preswylwyr o ran ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus, safonau byw, tai a'r ffordd o fyw y mae'n ei gynnig. Dylai'r ddinas amddiffyn ei hetifeddiaeth ddiwylliannol, artistig a chwaraeon, a hyrwyddo ei statws fel prifddinas gwlad ddwyieithog. Dylai pobl deimlo'n rhan o'u cymunedau a bod modd iddynt helpu i lywio dyfodol y ddinas a'i gwasanaethau. Mae sicrhau bod gan bawb lais a chyfle i achosi newid yn eu bywydau a'u cymunedau yn hanfodol i les ehangach.
Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus	Mae economi lwyddiannus sy'n ffynnu yn golygu amgylchedd economaidd bywiog all wrthsefyll heriau a bod yn gystadleuol yn rhyngwladol, drwy barhau i fod yn ddinas carbon isel, effeithlon o ran adnoddau ac sy'n ystyried terfynau'r amgylchedd rhyngwladol. Mae gan ffyniant economaidd sy'n hygyrch i bawb botensial pellgyrhaeddol i wella'r ddinas a bywydau'r rhai sy'n byw ynddi, nid yn unig o ran cyfoeth, ond hefyd o ran eu hiechyd, eu llesiant cymdeithasol ac ansawdd eu hamgylchedd.
Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	Dylai pobl o bob rhan o'r gymuned, ac yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, fod yn rhydd oddi wrth niwed, anaf, neu risg a dylent fod yn ddiogel yn eu hamgylchedd. Dylent deimlo'n gartrefol yn eu cymdogaethau a theimlo bod croeso iddynt yno. Mae teimlo'n ddiogel yn golygu teimlo'n hyderus na fydd yr un o'r pethau hyn yn cael eu peryglu. Mae cymdogaethau diogel a chydlynol yn gwella ffyniant economaidd y ddinas, gan ei gwneud yn lle mwy deniadol i fyw, ymweld a gwneud busnes, a thrwy hynny gyfrannu at lesiant cymdeithasol, corfforol a meddyliol y ddinas.
Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach	Mae gan bawb yr hawl i fod mor iach â phosibl. Mae iechyd yn golygu mwy na bod yn rhydd oddi wrth salwch neu lesgedd - mae'n ymwneud â llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Gall helpu pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol ynghylch ffordd o fyw i wella eu llesiant yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gan leihau nifer yr achosion o salwch difrifol a chyflyrau cronig yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall ffactorau economaidd-gymdeithasol megis incwm, tai a mynediad at wasanaethau iechyd, ynghyd â mynediad at fannau gwyrdd, gael dylanwad mawr ar iechyd.
Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy	Dinasoedd llwyddiannus y dyfodol fydd y rheiny sy'n cyflawni twf heb orfod cyfyngu ar eu hansawdd cymdeithasol ac amgylcheddol. Dinasoedd sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sy'n cefnogi gwytnwch. Mae hyn yn golygu lleihau'r defnydd gwastraffus o adnoddau gwerthfawr megis ynni, dŵr a bwyd, a lleihau allyriadau niweidiol megis carbon deuocsid, nitrogen deuocsid, llygredd a gwastraff. Dengys tystiolaeth bod gan yr amgylchedd naturiol rôl allweddol i'w chwarae mewn perthynas ag iechyd a llesiant, ac o ran datblygu ymdeimlad o falchder a pherthyn.

Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial	Yn aml, cyflawniadau addysgol a bywyd gwaith yw'r dull mwyaf adnabyddadwy o wireddu potensial a galluogi pobl i gael mynediad at gyfleoedd cyfoethog eraill. Mae'n bosibl mai addysg o'r radd flaenaf yw un o'r pethau mwyaf sylfaenol y dylai pobl ei chael, gan roi'r sgiliau a'r wybodaeth i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus, a chyfle i oedolion ddilyn eu diddordebau neu ddatblygu eu gyrfa.
Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol	Dinas fywiog ac amrywiol, gyda hanes balch o amlddiwylliannedd a chymunedau sy'n ymfalchïo mewn bod yn agored a chroesawgar. Dinas deg, lle mae'r sefydliadau a'r gwasanaethau a ddarparwn yn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn. Dinas lle gall pobl o bob cefndir gyflawni eu potensial a lle mae cyfleoedd bywyd a deilliannau cydraddoldeb yn cael eu hyrwyddo ledled yr holl gymdogaethau.

Dengys y ffigwr isod sut mae canlyniadau'r ddinas yn ymddangos yn erbyn y Nodau Llesiant Cenedlaethol, gan ddangos sut y gallwn ymateb i'r blaenoriaethau lleol a osodir gan ein dinasyddion ac ar yr un pryd gyfrannu at uchelgeisiau cenedlaethol ar gyfer llesiant Cymru.

Gweithio'n gynaliadwy

Mae datblygiad y drafft Asesiad Llesiant wedi cymryd i ystyriaeth y pum ffordd o weithio a nodir o dan y Ddeddf yn y ffyrdd canlynol:

Tymor hir - ***Cydbwyso anghenion tymor byr tra'n diogelu ein gallu hefyd i gwrdd ag anghenion tymor hir ein cymunedau.***

Wrth ddatblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer yr Asesiad Llesiant drafft, ystyriwyd y tueddiadau tymor hir sy'n effeithio ar y ddinas ar lefel strategol, ac ar gyfer bob un o'r saith canlyniad a rennir ar gyfer y ddinas. Crynhoir y rhain yn yr Adroddiad Dinas Byw yn adrannau 'Caerdydd Heddiw' a 'Chaerdydd Yfory', sy'n cyflwyno a chrynhoi pob pennod. Tynnwyd tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys dogfennau a gynhyrchir yn lleol (er enghraifft, Cynllun Datblygu Lleol y ddinas), astudiaethau rhanbarthol (er enghraifft, Adroddiad Cystadleurwydd a Thwf y Ddinas-Ranbarth), astudiaethau cenedlaethol (er enghraifft adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru), ac astudiaethau rhyngwladol (er enghraifft, Archwiliad Trefol yr Undeb Ewropeaidd).

Atal - ***Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu i'n helpu i gyflawni ein hamcanion.***

Mae hanes diweddar o weithio mewn partneriaeth yng Nghaerdydd wedi cefnogi diwylliant o feddwl a gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig, gan dorri ar draws y llinellau cyfrifoldeb traddodiadol o ddarparu gwasanaethau, ac mae wedi helpu partneriaid i ddatblygu dull mwy ataliol. Ceir cydnabyddiaeth y gall ymyrraeth gynnar mewn un ardal achub y blaen ar ddatblygiad problemau mwy difrifol yn ddiweddarach, gan atgyfnerthu'r ffaith mai dim ond trwy weithredu ar y cyd yn awr y gallwn atal a goresgyn problemau yn y dyfodol. Mae tystiolaeth gref bod rhaid gwneud mwy i atal problemau rhag gwaethygu, nid yn unig er mwyn lleihau costau i bartneriaid, fel y gall adnoddau gael eu gwario mewn ffordd mwy effeithiol yn y tymor hir, ond hefyd er mwyn gwella llesiant pobl.

Noda'r Asesiad Llesiant drafft nifer o feysydd sy'n dod i'r amlwg lle mae'n rhaid mabwysiadu dull ataliol. Er enghraifft, mae'r gost ariannol o ymateb i brofiadau niweidiol ym mywydau pobl ifanc yn arwyddocaol. Yng Nghaerdydd, mae'r gost flynyddol gyfartalog o leoliad i bob plentyn sy'n dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn £46,000 bob blwyddyn, gyda'r gwariant blynyddol gros gan y Gwasanaethau Plant ar leoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal yn £23m. Llawn mor bwysig yw effaith profiadau niweidiol ar fywydau'r plant eu hunain. Mae corff cynyddol o dystiolaeth eu bod yn gallu cael effaith ar ddatblygiad plant ac ar eu canlyniadau addysgol a chymdeithasol ymhell i'w dyfodol pan yn oedolion.

Integreiddio - ***Ystyried sut y gall ein hamcanion llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, neu ar amcanion unigol partneriaid***

Strwythurwyd Asesiad Llesiant Caerdydd yn ôl y saith canlyniad dinas a ddatblygwyd ar y cyd gan bartneriaid, ac maent yn rhoi darlun integredig a chydlynol o les yn y ddinas. Cytunodd partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gyflenwi'n erbyn y dyheadau tymor hir hyn ac maent yn cydnabod nad cyfrifoldeb unrhyw sefydliad unigol yw eu cyflawni, ond yn hytrach bod rhaid i ni ddod ynghyd i wella llesiant y ddinas.

Mae'r saith canlyniad wedi cael eu mapio yn erbyn y Nodau Llesiant Cenedlaethol fel (dudalen 28), wrth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu ei amcanion llesiant lleol a Chynllun Llesiant Lleol Caerdydd, y gallwn ddangos sut yr ydym yn cyfrannu at eu cyflenwi.

Cydweithio – ***Gweithredu mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni ein hamcanion llesiant.***

Mae hanes cryf o weithio mewn partneriaeth a chydlynu darpariaeth gwasanaeth gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn y ddinas ac ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod mai'r her yn awr yw cyflymu'r gwaith partneriaeth er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir a gwell canlyniadau.

Mae'r Asesiad Llesiant yn amlinellu barn a rennir ar les Caerdydd a'r tueddiadau tymor hir y rhagwelir a fydd yn dylanwadu ar ddyfodol y ddinas. Gan fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn datblygu amcanion llesiant a ffyrdd newydd o weithio yn ein hardaloedd, bydd y farn gyffredin hon yn hanfodol i nodi'r materion pwysig i ymdrin â hwy er mwyn gwella llesiant y ddinas a pha asedau a chyfleoedd sydd gennym eisoes yn eu lle i'n helpu i wneud hynny.

Cynnwys - ***Cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth Caerdydd.***

Hyd yma, mae gweithio mewn partneriaeth yn y ddinas yn tanlinellu bod angen i ni weithio gyda sefydliadau a phartneriaid lleol sydd â dealltwriaeth uniongyrchol o'r materion y mae'r ddinas yn eu hwynebu. Cydnabyddir bod yr atebion i ddatrys llawer o broblemau yn gorwedd o fewn y cymunedau eu hunain, ac nid o fewn ein sefydliadau. Mae gennym lawer iawn o dalent, arbenigedd, gwybodaeth a pharodrwydd ar draws rhanddeiliaid niferus y ddinas. Rôl bwysig i bartneriaid yw hwyluso, galluogi a chefnogi pobl a chymunedau fel y gallant ffynnu. Rhaid i ni fuddsoddi mewn cefnogi cymunedau i adeiladu capasiti i chwarae rhan fwy blaenllaw wrth lunio, darparu a rheoli gwasanaethau.

Mae’r Asesiad hefyd yn crybwyll canlyniadau arolwg blynyddol y Cyngor, sef ‘Holi Caerdydd’, ynghyd ag arolygon cenedlaethol a rhyngwladol eraill megis Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Archwiliad Trefol yr UE, er mwyn cael darlun o lesiant Caerdydd.

Mae'r Asesiad hefyd yn tynnu ar ganlyniadau arolwg y Cyngor blynyddol 'Holi Caerdydd', fel y ogystal ag arolygon cenedlaethol a rhyngwladol eraill fel Arolwg Cenedlaethol Cymru a Archwiliad Trefol yr UE, er mwyn datblygu darlun o les Caerdydd. Gallwch ddarllen mwy am canlyniadau'r Arolwg Caerdydd 2016 ac mae ein ymgysylltu amgylch yr Asesiad ar Ask tudalen 30.

Datblygu Asesiad Llesiant Caerdydd 2017

Sail dystiolaeth

Ym Mai 2016, cyfarfu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gychwyn y gwaith o ddatblygu Asesiad Llesiant Caerdydd a chytunwyd ar ddull sy'n adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed gan gyn-Fwrdd Partneriaeth Caerdydd yn 2015 i adolygu a diweddaru ei Asesiad Anghenion cynhwysfawr i Gaerdydd.

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r Asesiad Llesiant yn cynnwys:

- Y dangosyddion a ddewiswyd gan gyn-Fwrdd Partneriaeth Caerdydd i lywio'r Asesiad Anghenion ar ei newydd wedd yr ymgymerodd ag ef yn 2015;
- Y 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol sydd wedi eu nodi gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r Nodau Llesiant cenedlaethol;
- Data arolwg fel Arolwg Holi Caerdydd 2016, Archwiliad Trefol yr Undeb Ewropeaidd ac Arolwg Cenedlaethol Cymru;
- Dangosyddion a argymhellwyd gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill;
- Nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol y mae'r Asesiad yn gorfod cyfeirio atynt yn ôl y gyfraith (gweler tudalen 13).

Nid yw'r data'n canolbwyntio ar berfformiad y sefydliadau unigol, cyhoeddus a thrydydd sector sy'n gweithio yn y ddinas yn unig, ond yn hytrach mae'n creu darlun llawn o berfformiad y ddinas.

Dyma'r Asesiad Llesiant cyntaf yng Nghaerdydd, ac mae'r partneriaid yn cydnabod y bydd yn rhaid adolygu a gwella'r cynnwys yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn dal i adnabod y prif gyfleoedd a'r heriau o ran dod yn y brifddinas orau yn Ewrop i fyw ynddi.

Gwnaeth rhan o'n hymgynghoriad ar yr Asesiad Lles drafft ofyn i'n rhanddeiliaid, partneriaid a'n dinasyddion a oeddem wedi defnyddio'r wybodaeth gywir er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o les Caerdydd. Gallwch ddarllen mwy am ein rhaglen ymgysylltu ar dudalen 30 a cheir mwy o wybodaeth am y bylchau a nodwyd o ran beth rydym yn gwybod ar hyn o bryd ar dudalen 19.

Unwaith y caiff y Cynllun Llesiant Lleol ei ddatblygu, bydd yn cael ei ailystyried yn flynyddol, yn ogystal â'r dystiolaeth y tu ôl iddo, fel y gall partneriaid sicrhau bod y dadansoddiad o lesiant y ddinas yn gywir a'n bod yn gweithio gyda'n gilydd i gwneud y gwelliannau iawn ar gyfer llesiant y ddinas.

Strwythur

Mae Asesiad Llesiant Lleol Caerdydd yn cynnwys:

Y ddogfen grynodeb hon, sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu'r Asesiad ac sy'n amlygu rhai o'i brif ganfyddiadau;

Adroddiad Dinas Byw Caerdydd 2017, sy'n rhoi trosolwg o lesiant Caerdydd. Mae'r adroddiad Dinas Byw yn dwyn ynghyd ddadansoddiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o gryfderau a gwendidau Caerdydd fel lle i fyw, gweithio ac ymweld, o dan saith canlyniad Caerdydd, Ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau, cyfleoedd a heriau'r ddinas i'r dyfodol

Dyluniwyd yr Adroddiad Dinas Byw i alluogi ystod eang o gynulleidfaoedd i ymgysylltu mor hawdd â phosibl, gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid, uwch wneuthurwyr penderfyniadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac yn bwysicaf oll, ein dinasyddion. I gefnogi ymgysylltu ehangach, cyflwynir yr Adroddiad Dinas Byw hefyd ar wefan Partneriaeth Caerdydd.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Dinas Byw cyntaf gan Gyngor Dinas Caerdydd yn 2015, gan ragweld gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a rhoddodd drosolwg o berfformiad y ddinas o gymharu â dinasoedd eraill yn y DU ac Ewrop. Er mwyn cwrdd â gofynion mwy manwl yr Asesiad Llesiant Lleol, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddefnyddio'r Adroddiad fel crynodeb o'r Asesiad. Felly, mae'r adroddiad 2017 yn adeiladu ar yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw cychwynnol, gyda'r ychwanegiadau canlynol:

- Defnyddiwyd ystod ehangach o ddangosyddion perfformiad (yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf ac adborth gan bartneriaid)
- Rhoddwyd mwy o ffocws ar farn trigolion, gan drafod gwaith arolygon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol (gweler tudalen 10)
- Rhoddwyd mwy o ffocws ar dueddiadau, heriau a chyfleoedd i'r dyfodol, gydag adrannau 'Caerdydd heddiw' a 'Caerdydd yfory' ar gyfer pob canlyniad y ddinas.

Porth agored ar-lein – Ein nod yw bod yn agored gyda'r data rydym wedi ei ddefnyddio i ddatblygu'r Asesiad Llesiant drafft fel gall y cyhoedd a rhanddeiliaid ddweud wrthym os yw ein dadansoddiad o lesiant Caerdydd, a'r blaenoriaethau a dynnir ohono, yn gywir. Bydd yr holl ddata yn agored i'w ddefnyddio gan y cyhoedd, a chymunedau polisi ac ymchwil y ddinas. I gadw'r Asesiad yn gyfredol, bydd y sylfaen

dystiolaeth lawn ar gael ar wefan partneriaeth Caerdydd fel y gallwn ei newid wrth i ddata newydd gael ei ryddhau.

Asesiadau Llesiant Cymdogaethau – Paratowyd asesiadau sy'n edrych yn fwy manwl ar lesiant pob un o chwe ardal partneriaeth cymdogaeth Caerdydd, er mwyn tynnu sylw at rai o'r gwahaniaethau rhwng cymunedau'r ddinas. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi cipolwg ar ansawdd bywyd ar draws y ddinas a thynnwyd yn helaeth arnynt yn natblygiad Adroddiad Dinas Byw 2017. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ategu'r asesiadau hyn gyda mapio asedau a gwasanaethau manwl ar lefel y gymdogaeth, a fydd yn ei dro yn llywio dull newydd o weithio ar sail cymdogaeth ac ardal ac o ymgysylltu cymunedol.

Adolygiadau ac asesiadau statudol

Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried nifer o asesiadau ac adolygiadau wrth baratoi'r Asesiad Lles. Gallwn hefyd gyfeirio at adolygiadau ac asesiadau eraill yr ydym yn teimlo fydd yn cyfrannu at ddadansoddiad o lesiant y ddinas. Ceir mwy o fanylion isod:

Asesiad Newid yn yr Hinsawdd i Gymru
Mae hwn yn rhoi asesiad cenedlaethol o'r risgiau a'r cyfleoedd posibl sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Noda'r Asesiad y risgiau mwyaf arwyddocaol i Gymru fel a ganlyn:

- Cynnydd mewn marwolaethau a salwch sy'n gysylltiedig â thywydd poeth
- Newidiadau mewn cyflwr pridd, bioamrywiaeth a thirwedd oherwydd hafau cynhesach, sychach
- Gostyngiadau mewn llif afonydd ac argaeledd dŵr yn ystod yr haf
- Cynnydd mewn llifogydd ar yr arfordir ac yn fewndirol,
- Newidiadau mewn esblygiad arfordirol, gan gynnwys erydu
- Newidiadau mewn rhywogaethau gan gynnwys dirywiad mewn rhywogaethau brodorol
- Cynnydd yn y risg o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Mae'r Asesiad yn tynnu sylw at effaith bosibl newid yn yr hinsawdd nid yn unig ar yr amgylchedd, ond ar fusnes, seilwaith ac iechyd a llesiant. Gall llifogydd amlach a mwy difrifol (yn cynnwys llifogydd sydyn) beri risg fawr i fusnesau yng Nghymru.

Gan fod y perygl o lifogydd yn waeth mewn trefi a dinasoedd ar aberoedd afonydd, neu mewn ardaloedd lle ceir llanw, mae'n anorfod bod perygl o lifogydd yng Nghaerdydd.

Nid canlyniadau ariannol yn unig sydd i lifogydd. Gall hyd yn oed fân lifogydd effeithio'n sylweddol ar les corfforol a meddyliol pobl am flynyddoedd lawer. O bersbectif iechyd, y rhai sy'n dioddef fwyaf yw'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Caiff peryglon llifogydd i Gaerdydd eu trafod yn fanylach ar dudalen 58 o Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw 2017. Wrth i Gaerdydd dyfu, mae angen i ni sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried y perygl llifogydd posib ac yn ystyried mesurau ac amddiffynfeydd i leddfu'r sefyllfa.

O ran effaith newid yn yr hinsawdd ar argaeledd dŵr, rydym wedi cynnwys data ar gynefin mawndir yn y sail dystiolaeth a ffurfiodd Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw 2017. Er bod cynefinoedd mawndir yng Nghaerdydd yn lleol yn bennaf, yng Nghymru maent yn chwarae

rôl bwysig iawn o ran lleihau effaith sychder ar gyflenwadau dŵr. Mae mawndiroedd hefyd yn ased naturiol hanfodol o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth iddynt gloi carbon o'r atmosffer.

Gallwch **ddarllen mwy**[4] am yr Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Mae gan CNC ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyhoeddi "datganiadau ardal" ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae'n ystyried sy'n briodol i hwyluso gweithrediad y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.

Mae Datganiadau Ardal yn rhoi sail dystiolaeth i CNC weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i gymryd y camau casgliadol priodol i hybu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ar lefel leol.

Nid oes Datganiad Ardal ar gyfer Cymru wedi'i gyhoeddi eto. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae gwybodaeth ar lefel Caerdydd wedi'i chynnig gan CNC sy'n amlygu'r angen i ddefnyddio mesurau lliniaru er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd, gwella cysylltedd rhwng mannau gwyrdd a chynnig mynediad at fannau gwyrdd. Rydym wedi ymchwilio i hyn yn fanylach dan y Canlyniad 'Mae Caerdydd yn Lân ac yn Gynaliadwy' yn Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw 2017.

Gallwch **ddarllen mwy** ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru[5].

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 26(1) o Ddeddf Gofal Plant 2006 (c.21), cynhelir Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant llawn bob tair blynedd a chynhelir ymarfer adnewyddu yn flynyddol i fonitro digonolrwydd.

Daeth yr asesiadau diweddaraf i'r casgliad nad oes unrhyw fylchau digonolrwydd gofal plant sylweddol ar hyn o bryd, ac i'r mwyafrif helaeth, mae'r ddarpariaeth gofal plant yn diwallu anghenion teuluoedd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, disgwylir i'r galw am ofal plant tu allan i'r ysgol godi oherwydd newidiadau yn y system les a'r twf a ragwelir ym mhoblogaeth Caerdydd. Gallwch **ddarllen mwy** ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd[6].

---

[4] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?lang=cy

[5] https://naturalresources.wales/about-us/how-we-work/natural-resource-management-trials/?lang=cy

[6] http://ggd-caerdydd.info/asesiad-digonolrwydd-gofal-plant/

Darpariaeth Feithrin

Fel y nodir yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (gweler y ddolen uchod), mae gan blant yng Nghaerdydd hawl i le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Cynigir lleoedd mewn dosbarth ysgol feithrin gymunedol neu feithrinfa leol o fewn dwy filltir i ble mae'r plentyn yn byw. Os nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin cymunedol neu ddosbarthiadau meithrin lleol, gall rhieni wneud cais am gyllid am le addysg feithrin gyda darparwr cydnabyddedig.

Caiff digonolrwydd y ddarpariaeth feithrin ei fonitro a'i adolygu fel sy'n ofynnol o dan adran 119(5)(a) o Ddeddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998 (c.31). Caerdydd yw'r Ddinas Graidd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU a disgwylir y bydd cynnydd sylweddol yn y nifer o blant o oedran ysgol. Ystyrir bod datblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn opsiwn ar gyfer rheoli'r angen a nodwyd, yn ogystal ag edrych tuag at ddarparwyr cydnabyddedig i ateb y galw. Eisoes mae Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn buddsoddi £170m mewn darpariaeth feithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Asesiad Digonolrwydd Chwarae

Yn unol ag Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cynhaliwyd asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn 2013. Ar y pryd, roedd darpariaeth dan oruchwyliaeth yn cael ei dorri'n llym gyda therfyn yr arian Cymorth. Ers 2013, bu newidiadau arwyddocaol i wasanaethau chwarae, a bydd asesiad 2016, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cyfeirio at gyflwyno model darpariaeth chwarae newydd.

Nod bwriadedig y 'Model Darpariaeth Chwarae Newydd' yw darparu cyfleoedd chwarae 'mynediad hawdd' ar garreg y drws yn y gymuned leol, waeth beth fo'r lleoliad. Bydd yn darparu dulliau newydd gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid newydd mewn marchnadoedd newydd yn ogystal ag ymgysylltiad parhaus gyda phartneriaid traddodiadol. Bydd y meysydd a fydd yn derbyn sylw hefyd yn cynnwys ymdrin â galw o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a hyrwyddo hyfforddiant Iaith Gymraeg i staff i ddarparu darpariaeth ddwyieithog effeithiol.

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr presennol y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, ond mae'n ymwneud hefyd â phobl y disgwylir iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

Rydym wedi cynnal asesiad o anghenion y defnyddwyr hyn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg er mwyn nodi'r prif anghenion gofal a chymorth, problemau atal, ac asedau megis pobl, adeiladau, sefydliadau neu wasanaethau sy'n cyfrannu at wella neu gynnal lles.

Bu Canolfan Ymchwil Caerdydd, sydd wedi bod yn arwain ar yr Asesiad Llesiant, yn aelod o grŵp llywio'r asesiad boblogaeth. Mae'r cyswllt hwn wedi sicrhau alinio gweithgaredd (er enghraifft, ymgysylltu â'r gymuned), a bod llesiant lleol yn tynnu ar ddysgu sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad poblogaeth.

Ynghyd â'r broblem o anghydraddoldeb rhwng ac ymysg ein cymunedau, mae asesiad anghenion y boblogaeth yn nodi'r anghenion trawsbynciol canlynol:

- **Gwella gwybodaeth a mynediad i wasanaethau,** gan gynnwys mynediad i wybodaeth am y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael; mynediad amserol at iechyd meddwl a gwasanaethau gofal sylfaenol; hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth; cludiant i gymorth mynediad i wasanaethau; gwella ymwybyddiaeth, cyfeirio a mynediad i wahanol ffurfiau o eiriolaeth;
- Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd ar draws ein poblogaethau, ond yn arbennig pobl hŷn;
- Cymorth i ofalwyr, gan gynnwys cefnogaeth i ofalwyr ifanc ac oedolion, a seibiant i gofalwyr ifanc ac oedolyn;
- Gwella pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion;
- Cysylltiadau gydag addysg gan gynnwys gwella cyfranogiad ac ymgysylltu â ysgolion; a chyfleoedd addysgol galwedigaethol, prentisiaethau ac oedolyn dysgu;
- Tai addas i gwrdd ag anghenion amrywiol unigolion, ac i alluogi pobl i barhau'n annibynnol wrth iddynt heneiddio (am fwy o wybodaeth cliciwch yma);
- Cynnwys y gymuned, gan gynnwys ymgysylltiad cynyddol gyda gofal unigol a chynlluniau cymorth; ymgysylltu â chynllunio a dylunio gwasanaethau; ac cefnogi gwirfoddolwyr a gwirfoddoli;
- Dementia diwallu anghenion pobl â dementia a'u gofalwyr (ar gyfer mwy o wybodaeth cliciwch yma);
- Cydgysylltu / integreiddio gwasanaethau ar draws y sector statudol a gweithio gyda y trydydd sector, gan gynnwys gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau
- Camddefnyddio sylweddau gan gynnwys ymateb i batrymau newidiol gamddefnyddio.

Mae'r asesiad boblogaeth hefyd yn tynnu sylw at y materion atal mynd i'r afael:

- Adeiladu perthnasoedd iach, gan gynnwys iechyd meddwl ac emosiynol, rhywiol iechyd; atal gamfanteisio'n rhywiol ar blant; cymorth i blant a phobl ifanc pobl yr effeithir arnynt gan chwalu perthynas rhieni a Phlentyndod Niweidiol Digwyddiadau
- Sgiliau bywyd ymarferol gan gynnwys sgiliau ariannol (ar gyfer pob oedran)
- Ymddygiad iach gan gynnwys defnydd o dybaco, alcohol, deiet a gweithgarwch corfforol

- Amgylchedd iach ac amgylchedd adeiledig hygyrch, yn cynnwys mynd i'r afael â aer llygredd a'i gwneud yn haws i bobl, yn enwedig pobl hŷn a'r rheini ag anableddau neu nam ar y synhwyrau, i fynd o gwmpas.

Er mwyn mynd i'r afael â'r raddfa ac ehangder o anghenion gofal a chymorth, bydd angen blaenoriaethu yr hyn y mae'r sector cyhoeddus ei hun y gallu a'r adnoddau i gyflawni yn uniongyrchol. Mae hyn yn asesu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Ddeddf ei hun yn rhoi cyfle newydd i gweithio'n fwyfwy agos gyda sefydliadau trydydd sector gan gynnwys elusennau, cymdeithasol mentrau a chwmnïau cydweithredol, a'r cymunedau eu hunain drwy adeiladu ar eu hasedau, i cwrdd ag anghenion y boblogaeth ar y cyd.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 - Asesiadau Strategol
Mae'r asesiadau strategol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn wedi eu hintegreiddio yn flaenorol i mewn i'r Asesiad Anghenion a wnaed ar gyfer strategaeth partneriaeth integredig Caerdydd, 'Beth sy'n Bwysig'. Fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2015.

Mae'r Asesiad Anghenion, ynghyd â data perthnasol diweddar, wedi'u cynnwys dan y canlyniad 'Mae Pobl Caerdydd yn Ddiogel ac yn Teimlo'n Ddiogel' yn yr Asesiad Lles. Gwelwyd cynnydd sydyn a sylweddol mewn troseddu yng Nghaerdydd dros y 10 mlynedd ddiwethaf, yn unol â'r hyn a brofwyd mewn dinasoedd mawr eraill yn y DU. Fodd bynnag, mae ofn trosedd yn parhau i fod yn uwch nag y mae'r lefelau troseddau gwirioneddol yn awgrymu y dylai fod. Hefyd mae lefelau troseddu yn amrywio'n sylweddol ar draws y ddinas, yn dilyn patrymau incwm ac anghydraddoldeb iechyd.

Ar hyn o bryd mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn cynnal archwiliad trosedd ac anhrefn sylfaenol, a fydd yn bwydo i mewn i'r Asesiad Llesiant pan fydd ar gael.

Cynllun Datblygu Lleol
Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn cwmpasu'r cyfnod cynllunio 2006-2026. Yn cael ei lywio gan sail dystiolaeth eang yn ogystal â gwerthusiad cynaladwyedd, mae'n darparu canllawiau ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghaerdydd. Mae'r CDLl yn nodi rhai o'r goblygiadau twf a ragwelir i Gaerdydd dros y ddegawd nesaf, gan gynnwys yr angen sylweddol am dai newydd a'r rôl allweddol y mae'r ddinas yn ei chwarae fel gyrrwr economaidd y ddinas-ranbarth ehangach. Nodir y goblygiadau'n fanylach yn yr adran 'Bodloni Heriau Twf' ar dudalennau 10 ac 11 o'r Adroddiad Dinas Fyw. Mae'r set lawn o ddogfennau'r CDLl ar gael ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd[7].

Comisiwn Cystadlu a Thwf Rhanbarthol

[7] https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol/Cynllun-ar-Adnau/Pages/Cynllun-ar-Adnau.aspx

Sefydlwyd y Comisiwn Cystadlu a Thwf fel rhan o'r Fargen Ddinesig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn 2016, gwnaeth y Comisiwn ymgymryd ag **adolygiad** manwl o economi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Nodwyd bod y Fargen Ddinesig yn gyfle unigryw i alluogi mwy o lwyddiant, twf cynhwysol a datblygu cynaliadwy.

Nodir pwysigrwydd y brifddinas-ranbarth o ran bodloni heriau twf yng Nghaerdydd yn y Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw 2017.

Y bylchau yn yr hyn a wyddwn

Trwy ddwyn ynghyd yr Asesiad Llesiant drafft, gwelir bod bylchau o ran ba wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Ymdrinnir â rhai o'r bylchau hyn drwy barhau i weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r Asesiad Llesiant terfynol ym mis Mawrth 2017. Bydd rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Asesiad Llesiant drafft yn ymwneud hefyd â gofyn i'n partneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion pa ffynonellau eraill o wybodaeth y gellid eu defnyddio wrth i ni gwblhau'r Asesiad.

Gweler isod rai o'r bylchau a nodwyd ar hyn o bryd yn ein data:

- Ar hyn o bryd mae swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru yn cynnal Archwiliad Gwaelodlin Trosedd ac Anhrefn. Unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau, bydd y canlyniadau yn cael eu bwydo i mewn i'r Asesiad Llesiant.
- Mae Llywodraeth Cymru eto i ryddhau data am nifer o ddangosyddion cenedlaethol; lle bo'n briodol, ategwyd y bylchau hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth leol megis arolwg Holi Caerdydd, a bydd yn cael ei ddiweddaru unwaith y bydd y data terfynol ar gael.
- Ategir yr asesiadau Cymdogaeth gan ddadansoddiad, yn ôl Ardal Partneriaeth Cymdogaeth, o asedau sector cyhoeddus (yn enwedig asedau cyfalaf) a gwasanaethau, a grwpiau cymunedol, fel rhan o'r dull diwygiedig o weithio yn y gymdogaeth a'r ardal,
- Mewn meysydd fel Profiadau Plentyndod Niweidiol - profiadau ingol y mae plant yn dystion iddynt, neu a brofant - nid oes data lleol eto ar gael. Mae corff cynyddol o dystiolaeth ryngwladol yn nodi y gall y mathau hyn o brofiadau gael effeithiau hirbarhaol ar lesiant yn ystod plentyndod ac yn ddiweddarach yn eu bywydau, ac mae'r bwlch data hwn yn fater y bydd partneriaid eisiau ymdrin ag ef.
- Mae mwy o wybodaeth fanwl am fathau penodol o dlodi yn cael ei ddatblygu, yn enwedig ym meysydd bwyd a thlodi tanwydd, er mwyn ein helpu i lunio gwell darlun o brofiad ein cymunedau o amddifadedd.
- Er bod yr Asesiad drafft yn ystyried rhai agweddau o lesiant ar gyfer cymunedau penodol (fel mynediad at gyflogaeth i bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig) mae

gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried llesiant grwpiau penodol yn fwy manwl a bydd hyn yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd ar gael.

- Yn y tymor canolig, rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant Caerdydd fydd edrych yn fwy manwl ar yr heriau sy'n wynebu'r ddinas, i archwilio'r materion 'ac felly?' a 'pham?' a amlygwyd yn yr Asesiad Llesiant cychwynnol. Weithiau gelwir hyn yn 'ddadansoddiad ymateb'. Dim ond os ydym yn gweithio gyda phobl ar lawr gwlad y bydd hyn yn llwyddiannus - cymunedau sy'n adnabod eu problemau orau ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i ymdrin â hwy. Bydd y dull mwy dwys hwn yn gadael i ni edrych ar ba asedau sydd gan y ddinas i'w helpu i ymdrin â'r heriau a wynebir.

Beth mae'r Asesiad Llesiant yn ei ddweud wrthym?

Mae Caerdydd heddiw yn ddinas gymharol ddiogel, ddeniadol, ffyniannus ac iach. Mae pobl sy'n byw yma yn gyffredinol fodlon ar y ddinas a'i gwasanaethau cyhoeddus; maent wrth eu bodd â'i diwylliant, chwaraeon a mannau gwyrdd, er bod mynediad i swyddi da a thrafnidiaeth yn y ddinas yn aml yn cael eu codi fel materion y gellid eu gwella.

Mae gan Gaerdydd boblogaeth o 357,000 sydd wedi tyfu'n gyflym yn ystod y ddegawd ddiwethaf, gan gynyddu 11% rhwng 2005-2015. Gwna hyn Gaerdydd yn un o'r dinasoedd mawr Prydeinig sydd wedi tyfu gyflymaf dros y cyfnod hwn, llawer uwch na chyfraddau twf demograffig ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Disgwylir i'r twf barhau gyda thwf rhagamcanol o ychydig dros 20% rhwng 2015 a 2035 - sef 72,000 o bobl ychwanegol.

Mae Caerdydd yn rhan o'r Ddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach o 1.5m bobl. Caerdydd yw canolfan fasnachol y ddinas-ranbarth, ac mae dros 80,000 o bobl - traean o weithlu'r ddinas – yn cymudo i mewn ac allan o'r ddinas bob dydd. Yn ddemograffig, mae'r ddinas yn wahanol i'r ardal gyfagos, gyda phoblogaeth gymharol iau sy'n tyfu, a rhagwelir mai Caerdydd fydd yr unig awdurdod lleol yn y rhanbarth gyda phoblogaeth sy'n tyfu 16-64 oed rhwng nawr a 2039.

Bydd twf y ddinas yn dod â heriau yn ei sgil: bydd angen cartrefi a chymunedau newydd yn ogystal â ffyrdd newydd o deithio o gwmpas y ddinas a buddsoddiad mewn seilwaith ynni a dŵr. Ni fydd y twf yn wastad ar draws pob grŵp oedran: bydd y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl ifanc yn golygu y bydd angen mwy o ysgolion ac athrawon a bydd yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd. Bydd cynnydd yn nifer y bobl dros 85 oed hefyd yn cynyddu pwysau ar wasanaethau iechyd y ddinas oherwydd bod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod â chyflyrau tymor hir ac anghenion gofal cymhleth, ac o dreulio amser hirach ac amlach mewn ysbytai.

Yn fwy llwyr, mae'r Asesiad Llesiant wedi amlygu'r anghydraddoldeb a wynebir gan ddinasyddion ar draws y ddinas. Er gwaethaf ei chyfoeth cymharol o gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae Caerdydd yn cynnwys nifer o'r wardiau tlotaf yn y wlad. Ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng wardiau yng ngogledd a de'r ddinas, o ran canlyniadau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, cyfraddau cyflogaeth a lefelau troseddu.

Nodir crynodeb o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd nawr ac i'r dyfodol isod. Fodd bynnag, deallir bod y mathau o les a'r problemau a nodwyd isod yn cysylltu â'i gilydd. Darllenwch yr adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw i gael rhagor o wybodaeth, **yma**.

Lles economaidd

Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, yn gwneud cyfraniad allweddol at greu swyddi i bobl y ddinas a'r ddinas-ranbarth ehangach.

Mae economi'r ddinas yn perfformio'n dda ar draws nifer o brif ddangosyddion. Mae twf swyddi wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf gyda chynnydd arbennig o gyflym dros y tair blynedd ddiwethaf. Cafodd y mwyafrif o swyddi eu creu yng nghanol a de'r ddinas. Bu cynnydd net sylweddol yn nifer y swyddi bancio, cyllid ac yswiriant (20,000 o swyddi) ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (10,000 o swyddi). Mae nifer y swyddi mewn sectorau fel manwerthu a lletygarwch ac adeiladu wedi aros yn eithaf cyson ers 2006.

Mae diweithdra wedi lleihau'n sylweddol ac mae nawr ar ei bwynt isaf ers 2009, gan wneud Caerdydd yn un o'r dinasoedd craidd sy'n perfformio orau. Mae nifer y busnesau newydd sy'n cael eu creu a'r stoc fusnes gyffredinol wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae Caerdydd yn y canol o blith y dinasoedd craidd.

Mae nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r ddinas wedi parhau i gynyddu, ac felly hefyd gyfanswm gwariant ymwelwyr, sy'n adlewyrchu enw da cynyddol y ddinas fel lleoliad 'gwyliau' a digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr.

Mae allbwn economaidd Caerdydd (Gwerth Ychwanegol Crynswth), er ei fod yn llawer uwch na rhannau eraill o Gymru, yn cymharu'n eithaf gwael â phrif ddinasoedd eraill Prydain. At hynny, ar ôl degawd o dwf parhaus yn y blynyddoedd cyn y dirwasgiad economaidd, dim ond nawr y mae allbwn economaidd y pen – mesur allweddol o gynhyrchiant economaidd y ddinas – yn dychwelyd i'w lefelau cyn yr argyfwng. Mae hyn yn awgrymu, er bod swyddi'n cael eu creu yn economi'r ddinas, nad oes o reidrwydd ddigon o swyddi 'gwerth uchel' yn cael eu creu. Er enghraifft, mae 25% o weithlu'r ddinas yn ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar hyn o bryd. Dros y blynyddoedd nesaf, rhaid i Gaerdydd, fel economi Prydain, ddatrys ei 'phos cynhyrchiant' ei hun.

Bydd gwneud hynny'n golygu dechrau creu a denu mwy o fusnesau 'gwerth uwch' a swyddi sy'n talu'n well. O ystyried y lefelau sgiliau uchel a phresenoldeb tair prifysgol yn y ddinas, mae'r deunydd crai yma yn barod. Mae datblygiad y Sgwâr Canolog fel canolfan ar gyfer yr Economi Greadigol ochr yn ochr â buddsoddiadau mawr yn seilwaith gwyddoniaeth ac arloesi'r ddinas gan y sector addysg uwch yn awgrymu bod y newid hwn yn dechrau digwydd.

Nid yw holl drigolion y ddinas wedi teimlo buddion twf economaidd. Er gwaetha'r swyddi a grëwyd a'r buddsoddiad yng nghanol y ddinas, mae nifer o gymunedau tlotaf Cymru yn y brifddinas. Mae gwahaniaethau mawr mewn lefelau diweithdra, tlodi cartrefi a chartrefi di-

waith yn y ddinas, ac mae'r anghydraddoldebau economaidd hyn yn alinio'n agos ag anghydraddoldeb o ran iechyd, trosedd ac addysg. Mae'r tueddiadau hyn yn bodoli ers cyn yr argyfwng economaidd a'r dirwasgiad dilynol; roeddent i'w gweld yn ystod y cyfnod o dwf economaidd a welodd y ddinas yn y blynyddoedd cyn y 'wasgfa gredyd'.

O ystyried agosrwydd injan fasnachol y wlad i lawer o'r cymunedau hyn, mae'n amlwg, er bod hyn yn bwysig, nad cynyddu cyflogaeth yw'r unig ddatrysiad ar gyfer trechu tlodi yn y ddinas. Er enghraifft, mae'n bwysig nodi yr ystyrir canran uchel (>40%) o'r rheiny sy'n economaidd anweithgar mewn llawer o gymunedau yn rhy sâl i weithio. Mae preswylwyr hefyd yn nodi rhwystrau eraill, megis cost ac argaeledd gofal plant.

Mae poblogaeth Caerdydd wedi tyfu ochr yn ochr â'i heconomi. Dros y ddegawd ddiwethaf mae Caerdydd wedi tyfu gan fwy nag 11,000 o bobl, a disgwylir i nifer tebyg symud i'r ddinas dros y ddegawd i ddod. Yng Nghaerdydd mae'r gyfran fwyaf o bobl yn y grŵp oedran 20-29 o blith yr holl 'ddinasoedd craidd', ac mae tueddiadau demograffig yn dangos y bydd gweithlu economi'r ddinas yn tyfu'n sylweddol dros y cyfnod i ddod. Mae Cynllun Datblygu Lleol y ddinas yn amcangyfrif y bydd angen adeiladu mwy na 40,000 o gartrefi newydd a chreu 40,000 o swyddi newydd i ddarparu ar gyfer y twf hwn. Mae'r tueddiadau hyn yn arwydd o gyfnod o lwyddiant i economi'r ddinas. Fodd bynnag, bydd angen rheoli twf y ddinas yn gynaliadwy a chadarn dros y cyfnod hwn o dwf cyflym i sicrhau bod y ddinas yn parhau i weithredu'n effeithiol i weithwyr a phreswylwyr. Mae trafnidiaeth a thagfeydd wedi dod i'r amlwg fel blaenoriaeth benodol i breswylwyr a busnesau, gyda materion cysylltiedig fel llygredd aer a achosir gan geir hefyd yn cael eu blaenoriaethu.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae tueddiadau byd-eang yn dangos mai mewn dinasoedd y disgwylir y twf mwyaf o ran poblogaeth a thwf economaidd yn yr 21ain ganrif, ac y bydd swyddi newydd, busnesau technolegol a phobl addysgedig a medrus yn cael eu crynhoi fwyfwy mewn dinasoedd. Mae'r tueddiadau hyn hefyd yn amlwg yng Nghymru, gyda'r mwyafrif o dwf mewn swyddi a busnesau newydd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn digwydd yn y brifddinas dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Gellid tybio bod hyn yn wir yng Nghymru hefyd. Bydd cysylltu'r swyddi sy'n cael eu creu yn y ddinas â phreswylwyr y ddinas-ranbarth ehangach yn flaenoriaeth i Gaerdydd ac i Gymru. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y gwaith cysylltiedig o greu Metro Caerdydd a sefydlu trefniadau llywodraethu dinas-ranbarthol effeithiol yn allweddol bwysig o ran sicrhau twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol.

Lles cymdeithasol

Mae lles cymdeithasol yn ymwneud â safon byw da, gallu manteisio ar yr hyn y gall y ddinas ei gynnig a theimlo'n ddiogel yn eich cymuned. Mae addysg, tai, iechyd a diogelwch cymunedol i gyd yn helpu i greu bywydau hapus a llewyrchus.

Gellid disgrifio Caerdydd fel dinas iachach nag erioed. Mae lefelau iechyd cyffredinol yn uchel, gyda disgwyliad oes i ddynion a menywod yn parhau i godi. Disgwylir i fenywod yng Nghaerdydd fyw'n hirach nag yn y rhan fwyaf o'r Dinasoedd Craidd. Fodd bynnag, mae rhai problemau sylweddol o ran iechyd y ddinas o hyd. Mae mwy na hanner y boblogaeth yng Nghaerdydd dros eu pwysau, yn ordew neu dan eu pwysau; mae nifer cymharol isel o bobl yn gwneud ymarfer corff ac – er y gostyngiadau diweddar – mae yna lawer o bobl yn smygu ac yfed gormod. Mae 1 o bob 4 plentyn pump oed yng Nghaerdydd o bwysau afiach, a allai beri problemau hirdymor o ran canlyniadau iechyd y ddinas. Mae gwahaniaethau hefyd yn amlwg ar draws y ddinas, gyda bwlch disgwyliad oes iach o 22 i 24 mlynedd rhwng y cymunedau cyfoethocaf a thlotaf. Mae llawer o hyn o ganlyniad i ffactorau ffordd o fyw: mae bron dwywaith cymaint o oedolion yn byw yn ardaloedd difreintiedig y ddinas dros eu pwysau neu'n ordew.

Mae bron traean o gartrefi Caerdydd yn byw mewn tlodi gyda chanran uchel o blant yn byw mewn cartrefi di-waith ac incwm isel. Ceir gwahaniaethau amlwg mewn cyfoeth rhwng gogledd a de'r ddinas, gyda chyfraddau diweithdra Trelái bron deg gwaith yn uwch na rhai Creigiau.
Mae Caerdydd yn ddinas fedrus iawn, ac mae perfformiad ysgolion Caerdydd wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae bylchau'n parhau o ran cyrhaeddiad grwpiau penodol. Mae'r bwlch o ran cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn parhau'n sylweddol, ac mae'r rhan fwyaf o blant sy'n gadael ysgol nad ydynt yn pontio'n llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas, a all ddwysáu anghydraddoldeb hirsefydlog.

Er bod Caerdydd yn cael ei hystyried yn ddinas ddiogel yn dilyn lleihad cyflym a sylweddol mewn trosedd dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae lefelau trosedd hefyd yn amrywio'n fawr ar draws y ddinas, gan ddilyn patrymau anghydraddoldeb incwm ac iechyd.

Er bod llawer o bobl eisiau byw yng Nghaerdydd, mae prynu tŷ yn anodd i lawer o bobl: mae pris y tŷ cyffredin yn tua wyth gwaith y cyflog cyfartalog. Gall prisiau tai uchel olygu dirywiad mewn safonau byw wrth i gyfran uwch o incwm gael ei gwario ar gostau tai. Gall hefyd gael effaith negyddol ar les meddyliol pobl ac mae'n sbarduno anghydraddoldeb sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae digartrefedd, gyda'r effeithiau amrywiol ar bob math o les, yn parhau'n broblem sylweddol i Gaerdydd. Amcangyfrifir hefyd fod bron 25% o gartrefi yng Nghaerdydd yn byw mewn tlodi tanwydd, gyda chartrefi oer yn gysylltiedig â mwy o farwolaethau yn y gaeaf, afiechydon anadlol ac effeithiau ar iechyd meddwl.

Yn edrych tua'r dyfodol, bydd angen i ymdrechion gael eu targedu at annog ffyrdd iach o fyw, o ystyried yr effaith hirdymor ar unigolion a gwasanaethau iechyd. Er bod nifer y smygwyr yn debygol o barhau i leihau a chanran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel yn debygol o wella, amcangyfrif y bydd lefelau gordewdra yn parhau i gynyddu, sy'n ffactor allweddol o ran canlyniadau iechyd. Mae'r bwlch rhwng canlyniadau economaidd cymunedau gwahanol yn annhebygol o leihau, ac o ystyried y cysylltiad agos rhwng canlyniadau economaidd ac iechyd, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach pobl sy'n byw yn rhannau cyfoethocaf a thlotaf y ddinas yn debygol o gynyddu heb ymyrraeth.

Bydd cynllunio a rheoli twf y ddinas yn heriol. Bydd twf poblogaeth cyflym Caerdydd yn gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc iawn a'r bobl hŷn yn y ddinas, sydd ill dau'n arwain at bwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas, yn arbennig gwasanaethau iechyd.

Mae gwaith yn parhau'n genedlaethol ac yn rhyngwladol i astudio effeithiau'r hyn a elwir yn 'brofiadau plentyndod negyddol' – profiadau sy'n peri straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol. Ceir arwyddion fod y profiadau hyn yn gallu gwneud unigolion yn fwy tebygol o ddangos ymddygiad niweidiol a pherfformio'n waeth yn yr ysgol, ac arwain at salwch meddwl a chorfforol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'n rhywbeth y bydd angen i'r ddinas edrych arno'n fanylach.

Bydd yr angen am gartrefi fforddiadwy a swyddi a'r buddsoddiad y bydd hyn yn ei greu yn gyfle mawr i sicrhau bod pob preswylydd yn manteisio ar dwf. Bydd cynnig mwy o lwybrau at gyflogaeth a swyddi sy'n talu'n well, a thai fforddiadwy ochr yn ochr â chanlyniadau addysgol gwell yn hanfodol ar gyfer codi safonau byw.

Er bod tueddiadau hyd yma wedi dangos gostyngiad mewn lefelau troseddau a gofnodir, mae'r gwahaniaethau sylweddol rhwng lefelau trosedd yn ein cymdogaethau yn debygol o barhau heb waith i'w lleihau. Yn yr un modd, mae lleiafrif bach o blant ac oedolion yn agored i gamdriniaeth, trais ac ecsbloetiaeth a all effeithio arnynt am weddill eu bywydau. Bydd datblygu dulliau cydlynol o ddiogelu trigolion mwyaf bregus y ddinas yn parhau'n hanfodol.

Bydd natur trosedd yn datblygu ac addasu. Mae'r rhyngrwyd wedi dod â mathau ychwanegol o drosedd ac wedi rhoi llwyfan rhyngwladol i droseddau eraill, megis twyllo cwsmeriaid. Gwelir effaith rhwydweithio troseddol ar-lein mewn meysydd megis camfanteisio'n rhywiol ar blant a therfysgaeth ryngwladol.

Lles amgylcheddol

Mae Caerdydd yn ddinas werdd. Mae ganddi ddigonedd o barciau a mannau gwyrdd agored, a gall ei thrigolion gael mynediad hawdd at barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac arfordiroedd trawiadol yn y ddinas-ranbarth ehangach. Mae bron hanner y trigolion o'r farn bod mynediad i fannau gwyrdd a pharciau yn un o asedau allweddol y ddinas. Mae mynediad i ofod gwyrdd – a glas – yn cynnig manteision mawr o ran iechyd meddwl a chorfforol, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i wella perthnasau cymunedol. Mae seilwaith gwyrdd Caerdydd, ei llwybrau hamdden a'i rhwydweithiau beicio, ei choridorau afon a'i chefn gwlad yn cynnig cyfleoedd i gefnogi'r economi leol a gwneud y ddinas yn fwy cadarn.

Er hyn, mae Caerdydd yn wynebu heriau sylweddol. Mae ymchwil o bob rhan o Gymru yn awgrymu bod pum marwolaeth y flwyddyn yn cael eu hachosi gan lygredd aer. Er bod allyriadau carbon fesul pen yng Nghaerdydd wedi gostwng yn y ddegawd ddiwethaf a bellach yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, maent yn broblem allweddol i'r ddinas ac mae gwaith i'w wneud yng Nghaerdydd i gyrraedd lefel perfformiad awdurdodau lleol tebyg. Mae lefelau nitrogen deuocsid yng nghanol y ddinas yr uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru ac yn uwch na therfynau llygredd yr UE. Wrth i'r ddinas dyfu, bydd rhaid ystyried effeithiau cartrefi a cherbydau ychwanegol o ran cynyddu allyriadau o ystyried yr effaith bosibl ar iechyd os na chânt eu rheoli.

Mae dros 60% o breswylwyr bellach o'r farn bod trafnidiaeth yn y ddinas yn broblem ddifrifol neu ddifrifol iawn ac roedd yn fater a godwyd dro ar ôl tro yn ymgynghoriad yr Asesiad, naill ai o ran mynd i'r afael â thagfeydd neu'r angen i annog dulliau teithio llesol. Mae lefelau defnydd car yng Nghaerdydd yn uchel a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn gymharol isel, ond mae lefelau cerdded a beicio'n cymharu'n dda â dinasoedd craidd eraill ac yn cynyddu. Mae dibyniaeth y ddinas ar geir hefyd yn cael effaith negyddol ar ansawdd aer Caerdydd, a cheir sgîl-effeithiau ar iechyd. Mae gan y ddinas gyfle i annog y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan fod llawer o'r teithiau sy'n cael eu gwneud yng Nghaerdydd yn gymharol fyr. Gallai hyn leihau allyriadau carbon a nitrogen deuocsid yn ogystal â dod â manteision amgylcheddol ac iechyd eraill a chefnogi economi'r ddinas.

Mae cyfraddau ailgylchu Caerdydd yn gryf o'u cymharu â dinasoedd eraill Prydain. Mae'r gyfradd ailgylchu gwastraff y cartref wedi codi o 4% i 58% ers pennu targedau ailgylchu a chompostio. Fodd bynnag, mae glendid strydoedd yn flaenoriaeth barhaus i breswylwyr a gall gael effaith negyddol ar falchder pobl yn eu hardal a'u cymuned.

Ystyrir bod ardaloedd o Gaerdydd mewn perygl uchel o lifogydd, o'r arfordir a dŵr wyneb. Mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried wrth i'r ddinas dyfu.

Yn edrych tua'r dyfodol, bydd twf hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau amgylcheddol a naturiol y ddinas a'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y maen nhw'n eu rhoi i Gaerdydd a'i hardal gyfagos. Bydd mwy o bobl yn golygu bod angen adeiladu mwy o dai, bod mwy o deithiau'n cael eu gwneud, bod mwy o ynni'n cael ei ddefnyddio a bod mwy o wastraff yn cael ei greu. Bydd rheoli effeithiau amgylcheddol y twf a'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr i'r ddinas.

Mae asesiad diweddaraf y DU ar newid yn yr hinsawdd wedi nodi llifogydd a gwres eithafol fel y risgiau mwyaf i seilwaith, yr amgylchedd naturiol a'n hiechyd a'n lles. Er mai canran fechan o dai yng Nghaerdydd sydd mewn perygl uchel o lifogydd, mae rhai cymunedau mewn perygl ac, wrth i'r ddinas dyfu, bydd angen lleihau'r risgiau i gymunedau newydd. Mae'r amgylchedd yn allweddol i iechyd, fel mae elfennau o 'ragnodi cymdeithasol' yn ei dystio. Bydd cynnig mynediad i barciau a mannau agored a seilwaith gwyrdd arall fel rhwydweithiau beicio a cherdded yn gynyddol bwysig, ar gyfer cymunedau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd. Yn ogystal â bod yn bwysig i fywyd gwyllt, maent yn cyfrannu at ein lles corfforol a meddyliol ac yn ganolbwynt i gymunedau.

Lles diwylliannol

Fel prifddinas Cymru, mae Caerdydd mewn sefyllfa unigryw o ran ei lles diwylliannol. Mae'n amlwg bod pobl yn mwynhau byw yng Nghaerdydd. Mae theatrau, amgueddfeydd, adeiladau treftadaeth a pharciau, cyfleusterau chwaraeon a siopau'r ddinas ymysg ei hasedau gorau, yn helpu i ddenu ymwelwyr o bedwar ban byd.

O ystyried y cyfoeth o gyfleusterau a digwyddiadau celfyddydol sydd yn y brifddinas, nid yw'n syndod gweld Caerdydd ar y brig yng Nghymru o ran canran y bobl sydd wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol, o gynyrchiadau theatr i ddigwyddiadau cerddorol, o arddangosfeydd i ddigwyddiadau celf stryd. Mae'r celfyddydau'n rhan allweddol o economi Caerdydd, yn denu pobl a swyddi i'r ddinas, ond maent hefyd yn cael effaith gymdeithasol bwysig, yn ysbrydoli pobl ifanc, yn gwella bywydau pobl o ddydd i ddydd, ac yn gwella eu lles meddyliol.

Mae tri chwarter o bobl Caerdydd yn dweud bod y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig i'w lles, a dywedodd ychydig dros saith deg y cant yr un peth am chwaraeon. Mae Caerdydd yn y trydydd safle o blith prifddinasoedd Ewrop o ran boddhad pobl â'n neuaddau cyngerdd, theatrau ac amgueddfeydd; ac yn gydradd bedwerydd am ein cyfleusterau chwaraeon. Mae gan Gaerdydd gyfoeth o asedau yn y maes hwn, gan gynnwys pum amgueddfa sy'n gartref i gasgliadau sydd wedi'u hachredu i safonau'r DU, yn ogystal ag un o chwe archifdy achrededig Cymru.

Fel prifddinas, mae gan Gaerdydd rôl bwysig o ran hyrwyddo Cymru fel gwlad sy'n hollol ddwyieithog. Dangosodd cyfrifiad 2011 fod gan ychydig dros 15% o bobl Caerdydd o leiaf un sgil yn yr iaith Gymraeg. Hefyd, mae gan Gaerdydd hanes hir o fod yn ddinas agored ac amrywiol gyda dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad ar draws y ddinas.

Ar y cyfan, mae pobl yn cytuno bod Caerdydd yn ddinas gydlynol, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymunedau a bod ganddynt berthnasau cadarnhaol o fewn iddynt. Rydyn ni'n gydradd bedwerydd o blith prifddinasoedd Ewrop o ran y graddau mae pobl yn teimlo bod tramorwyr wedi integreiddio'n dda, a dangosodd ein gweithgareddau ymgysylltu fod cydlyniant yn ased allweddol Fodd bynnag, nid dyma brofiad pawb yng Nghaerdydd o ddydd i ddydd. Mae troseddau casineb – troseddau sy'n seiliedig ar hunaniaeth pobl, fel rhywioldeb, anabledd neu hil – yn digwydd ar draws y ddinas, gan gael effaith negyddol ar ymdeimlad pobl o berthyn yn eu cymuned a'r teimlad eu bod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

Mae bod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol cryf a chyfrannu'n weithredol at fywyd cymunedol lleol yn gwella lles pobl, a gall wneud pobl a'u cymunedau yn fwy cadarn. O ystyried twf y ddinas a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysicach nag erioed i

gymunedau a phreswylwyr deimlo y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio'r ddinas a'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.

O gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru, mae pobl yng Nghaerdydd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal. Fodd bynnag, gwnaeth nifer y pleidleiswyr yng Nghaerdydd amrywio o ychydig dan 40% yn etholiadau lleol 2012 i ychydig dan 50% yn etholiadau diwethaf y Cynulliad, i bron 70% yn yr etholiad cyffredinol diwethaf yn 2015. Mae'r ffigurau cyffredinol hyn yn cuddio gwahaniaethau ledled y ddinas. Mae pobl mewn ardaloedd cyfoethocach yn fwy tebygol o lawer o ymgysylltu â'r broses etholiadol na phobl mewn wardiau tlotach.

Mae cyfran sylweddol o bobl Caerdydd yn gwirfoddoli. Yn ogystal â'r manteision y mae gwirfoddoli'n eu cynnig i gymunedau Caerdydd, gall helpu pobl i fagu hyder a hunan-barch, dysgu sgiliau a gwella eu CV, a rhoi rhywbeth yn ôl i'r bobl o'u hamgylch, gan feithrin ymdeimlad o gymuned. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn y gymuned – fel pobl hŷn – yn fwy tebygol o lawer o wirfoddoli nag eraill. Mae llawer o ddinasyddion Caerdydd yn dweud nad ydynt yn gwybod sut mae manteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd angen i'r ddinas weithio'n galed i gyflawni ei huchelgais o fod y brifddinas orau yn Ewrop i fyw ynddi. I gyflawni hyn bydd angen sicrhau bod dinasyddion yn fodlon iawn ar fywyd yn y ddinas, adeiladu ymdeimlad o gymuned yn y ddinas ac, yn allweddol, sicrhau gwasanaethau cyhoeddus gwych ar adeg o alw cynyddol a llymder yn y sector cyhoeddus.

Bydd cydlyniad cymunedol - synnwyr o berchnogaeth y mae cymunedau'n ei deimlo, a'r perthnasau cryf a phositif ynddyn nhw - yn fwyfwy pwysig wrth i Brexit, rhyfeloedd, newid yn yr hinsawdd, terfysgaeth ryngwladol a phwysau economaidd gael effaith ar symudiad rhyngwladol pobl. Wrth i'r boblogaeth dyfu a dod yn fwy amrywiol, mae'n bwysig ein bod yn parhau i adeiladu ar hanes hir Caerdydd o fod yn ddinas agored a chroesawgar.

Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae deall beth mae pobl Caerdydd yn ei feddwl am les yn y ddinas wedi bod yn hanfodol i'r broses o ddatblygu ein Hasesiad a dechrau nodi'r heriau allweddol y mae'r ddinas yn eu hwynebu. Rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd baratoi a chyhoeddi ei Asesiad Lles erbyn diwedd Mawrth 2017, ac yna ddatblygu Cynllun Lles ac amcanion ar gyfer gwella lles y ddinas erbyn Mai 2018.

Yn eu hanfod, mae Asesiad Lles Caerdydd a'r Cynllun Lles Lleol yn ymwneud â'r cyfleoedd a'r heriau allweddol y mae'r ddinas a'i phobl yn eu hwynebu, felly mae'n hanfodol bod partneriaid, rhanddeiliaid a phreswylwyr yn rhan o'r broses hon.

Datblygu'r Asesiad – Arolwg Holi Caerdydd 2016

I'n helpu i ddeall beth mae pobl sy'n byw yma yn ei feddwl am y ddinas, defnyddiom arolygon cenedlaethol a rhyngwladol fel Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Archwiliad Trefol yr UE.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio canlyniadau Arolwg 'Holi Caerdydd' 2016, sy'n edrych ar bob rhan o fywyd, o farn pobl ar wasanaethau a pha mor aml maent yn defnyddio ein parciau a'n canolfannau hamdden, i'r graddau y maent yn poeni am allu fforddio safon bywyd digonol. Yn 2016, gofynnwyd i ddinasyddion nodi am y tro cyntaf y ffactorau pwysicaf i'w lles nawr, a beth fydd y pethau pwysicaf a fydd yn effeithio ar eu lles dros y pum mlynedd nesaf.

Roedd bod yn ffit ac yn iach yn ganolog i les pobl heddiw, ynghyd â bod yn agos at ffrindiau a theulu. Yn y dyfodol, roedd pobl yn credu y byddai eu hiechyd a'u symudedd yn effeithio arnynt, yn ogystal â'u cyllid, eu hoedran a'u gallu i fforddio llety addas. Gallwch ddarllen mwy am beth mae pobl Caerdydd yn ei feddwl am eu lles yn adran 'Lle Gwych i Fyw, Gweithio a Chwarae' yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw.

Mae Arolwg Holi Caerdydd wedi bod yn rhedeg ers degawd ac yn cael mwy o ymatebion nag unrhyw arolwg arall ar gyfer awdurdodau lleol cyfan o blith y Dinasoedd Craidd – mwy na 4,000 o ymatebion yn 2016. Er mwyn sicrhau cynifer â phosibl o ymatebion ac i dargedu cymunedau penodol nad ydynt yn cynnig llawer o ymatebion yn draddodiadol, defnyddiom y dulliau canlynol i ddosbarthu'r arolwg i breswylwyr:

- Postiwyd arolygon papur i hapsampl o 3,000 o aelwydydd gan yr Adran Etholiadol. Dosbarthwyd 1,000 o arolygon ychwanegol yn Nwyrain Caerdydd a Chanol a De Caerdydd i roi hwb i'r gyfradd ymateb yn yr ardaloedd hynny, sy'n golygu bod cyfanswm o 5,000 o gyfeiriadau wedi cael yr arolwg drwy'r post.

- Dosbarthwyd arolygon papur a blychau pleidleisio yn adeiladau'r Cyngor ac mewn Hybiau a llyfrgelloedd.
- E-bostiwyd fersiwn ar-lein o'r arolwg i ddefnyddwyr Llyfrgelloedd, C2C, deiliaid cyfrifon Treth Gyngor ar-lein, deiliaid Allwedd y Castell a Defnyddwyr y Cerdyn Stretch. Roedd hyn yn gyfanswm o 86,670 o gyfeiriadau e-bost.
- Cafodd yr arolwg hefyd ei e-bostio i aelodau'r Panel Dinasyddion, sy'n gyfanswm o 6,357 o breswylwyr.
- Cafodd ymgyrch ei chydlynu ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrifon Twitter Cyngor Caerdydd a Sgwrs Caerdydd, gyda chynulleidfa o 45,000 o ddilynwyr.
- Cafodd yr arolwg gyhoeddusrwydd hefyd yn 'Ein Caerdydd', papur newydd y Cyngor sy'n cael ei gyhoeddi bob chwarter ac sydd ar gael mewn archfarchnadoedd a siopau ledled y ddinas ac mewn adeiladau sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor ledled y ddinas.

Ac er mwyn gwella cyfraddau ymateb o gymunedau 'anodd eu cyrraedd':

- Dosbarthwyd arolygon â llaw i gartrefu a busnesau yn Nwyrain Caerdydd a Chanol a De Caerdydd.
- Cynhaliwyd sesiynau hyrwyddo mewn archfarchnadoedd lleol a digwyddiadau cymunedol.
- Gweithiwyd gyda Phrifysgol Caerdydd i gyrraedd pobl iau.
- Cynhaliwyd gweithdai gyda defnyddwyr gwasanaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru ar elfennau penodol o'r ymgynghoriad.

Ymgysylltu ac Ymgynghori'r Asesiad Lles

Lansiwyd yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw drafft a'r Asesiad Lles ar 12 Ionawr 2017 yn 'Fforwm Dinas Fyw, Dinas Byw' cyntaf y ddinas. Roedd y Fforwm yn gyfle pwysig i arweinwyr o sector cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat y ddinas, ynghyd â grwpiau ffydd a chydraddoldeb, ystyried yr Asesiad drafft a dechrau nodi'r heriau a'r cyfleoedd pwysicaf y mae'r ddinas yn eu hwynebu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn o 12 Ionawr 2017 i 26 Chwefror 2017. Roedd y broses ymgynghori ac ymgysylltu'n cynnwys ymgynghoriad ar-lein, gweithdai ymgysylltu gyda grwpiau penodol sy'n 'anodd eu cyrraedd', ynghyd â chyfleoedd i gyfrannu drwy ryngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymateb ffurfiol. Gallwch ddarllen canlyniadau llawn yr ymgynghoriad yn yr Ymgynghoriad Dinas Fyw, Dinas Byw a'r Adroddiad Ymgysylltu. Dan statud, cysylltwyd â rhai rhanddeiliaid a phartneriaid yn uniongyrchol am adborth, gan gynnwys:

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyfranogwyr a phartneriaid a wahoddwyd gan y Bwrdd
- Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad Cyngor Dinas Caerdydd

- Sefydliadau gwirfoddol
- Cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes
- Undebau Llafur
- Y rheiny â diddordeb mewn adnoddau naturiol
- Cyrff diwylliannol.

O ystyried pwysigrwydd Caerdydd i'r ddinas-ranbarth, gofynnom hefyd i'n hawdurdodau lleol cyfagos am eu barn ar yr Asesiad. Gallwch ddarllen mwy am sut mae lles Caerdydd yn gysylltiedig â'i chyffiniau yn yr Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw.

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein ar agor i'r cyhoedd ac ymysg gweithgareddau codi ymwybyddiaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roedd datganiad i'r wasg, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a dosbarthu e-byst i gysylltiadau, gan gynnwys y Panel Dinasyddion. Cawsom bron 500 o ymatebion i'n hymgynghoriad ar-lein, yn ogystal ag ymatebion ffurfiol. Cymerodd dros 300 o bobl ran yn ein sesiynau ymgysylltu targedig. Cyrhaeddodd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 1.7m o ddefnyddwyr, a chafwyd dros 3,100 o gliciau ar y neges i gael rhagor o wybodaeth.

Fodd bynnag, roedd aelodau'r BGC hefyd yn awyddus i ymgysylltu â grwpiau penodol a phartïon â diddordeb, a arweiniodd at ddatblygu sesiynau ymgysylltu targedig. Hwyluswyd 12 o sesiynau rhwng 12 Ionawr a 15 Mawrth 2017:

- Fforwm Dinas Fyw, Dinas Byw
- Gweithdy Cyngor Ieuenctid Caerdydd gyda thua 35 o bobl ifanc wedi'u hethol gan eu cyfoedion
- Briff Aelodau i Gynghorwyr etholedig
- Set o bum gweithdy gyda 150 o bobl ifanc yn Ysgol Uwchradd Willows
- Fforwm ar y cyd â Grŵp Ffocws Mynediad Caerdydd a'r Fforwm 50+
- Fforwm Polisi Dinas Fyw, Dinas Byw ar gyfer tua 60 o arbenigwyr polisi o sefydliadau o bob rhan o Gaerdydd
- Rhwydwaith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cyngor Trydydd Sector Caerdydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol o sefydliadau lleiafrifoedd ethnig.
- Fforwm Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewnol Cyngor Caerdydd ar gyfer staff cyngor sydd o gefndiroedd lleiafrifol.

Oherwydd natur amrywiol y grwpiau roedd pob sesiwn yn amrywio'n fawr o ran hyd a gweithgareddau i fodloni anghenion yr aelodau. Er y gwahaniaethau, cafodd pob sesiwn ei chynnal gyda'r un meysydd craidd:

- Pa fath o le yr hoffai'r cyfranogwyr i Gaerdydd fod yn 2035.

- Beth sydd ei angen ar ddinas i weithio'n dda i'r bobl sy'n byw yno a/neu yn ei defnyddio.
- Pa mor dda mae Caerdydd yn gweithredu.
- Blaenoriaethau Caerdydd ar gyfer newid i gynyddu lles y boblogaeth.
- Meddwl cychwynnol ynghylch datrysiadau i'r blaenoriaethau a ddewiswyd.

Beth ddywedodd pobl wrthym ni?

Nodir rhai o'r blaenoriaethau a'r heriau a gododd dro ar ôl tro ym mhroses ymgysylltu ac ymgynghori ein Hasesiad isod. Gallwch ddarllen mwy am y rhain yn yr adroddiad ymgysylltu llawn. Maent wedi'u rhannu yn ôl thema, ond mewn gwirionedd mae llawer o'r heriau hyn yn cysylltu sawl agwedd ar les:

Seilwaith: rheoli effeithiau twf; annog a chadw'r ddinas i symud; mynediad i ofal iechyd o safon; cynnal ac ehangu parciau a mannau agored; tai fforddiadwy a hygyrch.

Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth: dod yn ddinas lanach; lleihau llygredd aer/buddsoddi mewn technoleg werdd; gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

Iechyd: annog iechyd cyhoeddus cadarnhaol; gofal am boblogaeth sy'n heneiddio; annog beicio a cherdded.

Cydraddoldeb a chyfleoedd: lleihau anghydraddoldeb; lleihau digartrefedd; rhoi pobl wrth wraidd gwasanaethau; cynnwys y boblogaeth gyfan.

Economi ac addysg: rhoi hwb i'r economi; dod yn Ddinas Cyflog Byw; gwella addysg; paratoi pobl ar gyfer y byd gwaith.

Cymuned: bod yn ddinas ddiogel ar gyfer y gymuned gyfan; cymunedau cydlynol; gweithgareddau diwylliannol a phethau i'w gwneud.

Mae'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth hwn wedi arwain at Asesiad Lles cryfach o lawer, un sy'n adlewyrchu barn pobl ar yr hyn sy'n gwneud Caerdydd yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo, yn ogystal â dechrau nodi'r heriau allweddol y dylai'r ddinas fynd i'r afael â nhw drwy ei hamcanion lles a'i Chynllun Lles Lleol.

Camau Nesaf – Datblygu Cynllun Lles Lleol Caerdydd

Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi ei amcanion lles a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni erbyn Mai 2018. Rhaid i ni nodi:

- Pam ein bod yn credu y bydd yr amcanion hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion lles mewn ardaloedd lleol
- Sut rydym wedi ystyried yr Asesiad Lles wrth bennu amcanion a'r camau fydd eu hangen i'w cyflawni.

Mae'r amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Lles Caerdydd isod.

Dyddiad	Gweithgaredd
Gwanwyn 2017	Cyhoeddi Asesiad Lles Lleol Caerdydd
Haf 2017	Drafftio Cynllun ac Amcanion Lles Lleol Caerdydd
Haf/Hydref 2017	Drafftio amcanion Lles Caerdydd gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gyngor
Hydref/Gaeaf 2017	Drafftio Ymgynghoriad Statudol y Cynllun Lles (12 wythnos)
Mawrth 2018	Aelod-sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gytuno ar y Cynllun Lles
Ebrill 2018	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gymeradwyo a lansio'r Cynllun Lles Lleol

Rydym eisiau clywed eich barn chi

Bydd Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd yn nodi amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran gwella llesiant yng Nghaerdydd. Caiff y cynllun ei lunio yn ystod 2017 a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

Rydym ni eisiau clywed eich barn chi am sut y gallwn wella Caerdydd nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn yr Hydref/Rhagfyr 2017 ond gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Tîm Polisi a Phartneriaeth, Ystafell 512,
Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
Ffôn: 029 2087 3854
E-bost consultation@caerdydd.gov.uk
www.partneriaethcaerdydd.co.uk